Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Tai a Llety

**Jack Price**
Mawrth 2021

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella’r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a chymhwyso tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a symbylu tystiolaeth bresennol a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol o’r llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â heriau strategol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; ac mae’n
- Tynnu ar ei waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus, i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella llunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i raglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i ddatblygu’r gallu ymhlith ymchwilwyr i ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith go iawn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i’n gwefan: [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n benderfynol o adeiladu perthnasoedd rhyngwladol cryf wrth ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol** (ESRC) yn rhan o *UK Research and Innovation*, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, *Innovate UK* a *Research England* ynghyd i fwyafu cyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **4** |
| **Cefndir** | **5** |
| **Cyflwyniad** | **5** |
| **Gwella ansawdd tai** | **8** |
| **Digartrefedd a'r risg o ddigartrefedd** | **19** |
| **Cydlyniant cymunedol ac arwahanu preswyl** | **22** |
| **Crynodeb** | **26** |
| **Atodiad 1: Cyfeirnodau at y gyfres adrodd** | **32** |
| **Atodiad 2: Argymhellion cylchol** | **33** |

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o chwech sy'n darparu tystiolaeth annibynnol i lywio datblygiad Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.
- Mae'n dwyn ynghyd y dystiolaeth bresennol sy’n bodoli ar raddau ac achosion anghydraddoldeb hiliol ym maes tai ac yn nodi ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â’r sefyllfa.
- Mae tai yn faes pwysig o ran cydraddoldeb hiliol oherwydd bod pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o wynebu anfantais tai tra bod cysylltiad amlwg rhwng tai, tlodi, incwm a chydlyniad cymdeithasol.
- Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan gynnwys: ansawdd ac argaeledd tai; digartrefedd a'r risg o ddigartrefedd; a chydlyniant cymunedol ac arwahanu preswyl.
- Mae’n argymell ffyrdd o fynd i’r afael ag anghydraddoldeb hiliol, gan gynnwys:
    - Darparu Cynllun Gweithredu Tai Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi’i ddiweddaru, sy’n amlinellu a mynd i'r afael ag arwahanu preswyl fel rhan o strategaeth integreiddio ehangach sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, undod a phwrpas cyffredin rhwng grwpiau ethnig.
    - Blaenoriaethu allgymorth ac ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig er mwyn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau a’r gallu i gael mynediad atynt.
    - Cynnal mwy o waith ymchwil er mwyn deall anghenion tai cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn well, gan gynnwys anghenion diwylliannol penodol.
    - Archwilio dichonoldeb ac effeithiolrwydd creu 'Cymdeithas Tai BME', sy'n cael ei harwain gan, ac sy’n darparu gwasanaethau i denantiaid Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
    - Ehangu'r ddarpariaeth o leiniau, gan gynnwys mannau aros dros dro, ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
    - Cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy, oherwydd y bydd hynny o fudd anghymesur i gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
    - Mynd i'r afael ag arwahanu preswyl fel rhan o strategaeth integreiddio ehangach sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, undod a phwrpas cyffredin rhwng grwpiau ethnig.

# Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a fydd yn cael ei ddylunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol strwythurol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae'r adroddiad hwn yn un o chwech a gynhyrchwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddarparu tystiolaeth annibynnol i lywio datblygiad y Cynllun Gweithredu (gweler Atodiad 1). Mae'n canolbwyntio ar dystiolaeth ac argymhellion ar gyfer gweithredu sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol ym maes arweinyddiaeth a chynrychiolaeth.

## Terminoleg

**Wrth ysgrifennu ein hadolygiad, rydym yn osgoi defnyddio'r acronymau / termau 'BAME' neu 'BME', ac eithrio lle mae hyn yn disgrifio enw sefydliad neu rwydwaith, gan ein bod yn cydnabod bod y rhain yn dermau a herir a gellir eu hystyried yn dermau sy'n gwarthnodi, dadbersonoli ac 'aralloli'. O ganlyniad, rydym yn ceisio cyfeirio at bobl a chymunedau penodol lle bynnag y bo modd. Lle nad yw hyn yn bosibl, ac er y bydd unrhyw gategori cyffredinol yn amherffaith, rydym yn defnyddio'r term 'Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig'.**

# Cyflwyniad

**Argymhellion**

- Dylai data ar dai ac ethnigrwydd gael ei gasglu fel mater o drefn a'i gyhoeddi mewn ffordd hygyrch yng Nghymru, gan ddilyn esiampl Gwasanaeth Ffeithiau a Ffigurau Ethnigrwydd Lloegr.

Mae'r berthynas rhwng tai a hil wedi dod yn amlycach fyth oherwydd yr anghydraddoldebau a amlygwyd gan y pandemig Coronafeirws (gweler Ogbonna, 2020, er enghraifft). Er ei fod yn denu llai o sylw na rhai materion cymdeithasol eraill, mae'r cysylltiadau cryf rhwng tai a mynegiadau eraill o anghydraddoldeb hiliol yn golygu ei fod yn benderfynydd allweddol o ran lles. Mae'r mynegiadau hyn yn cynnwys:

- Incwm ac anghydraddoldebau cyfoeth (sy'n cael eu hamlygu trwy ddiffyg mynediad at dai addas a gorlenwi;

- Iechyd (oherwydd y cysylltiad rhwng amodau tai a deilliannau iechyd); a
- Chydlyniant diwylliannol a chymunedol (gan gynnwys cwestiynau am arwahanu ac integreiddio).

Tra rhoddir sylw yn aml i ganolbwyntio ar gynyddu mynediad at dai o ansawdd da, mae grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig hefyd yn anghymesur o debygol o ddod yn ddigartref, felly mae angen rhoi sylw i hyn.

Mae ansawdd ac argaeledd tai fforddiadwy yn fater pwysig mewn llawer o gymunedau gwledig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae poblogaeth Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru wedi'i ganoli'n bennaf yn ninasoedd arfordirol De Cymru: Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe.[1] Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cydberthynas rhwng cyfrannau uchel o drigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a thai o ansawdd gwael mewn ardaloedd trefol, yn hytrach na gwledig, yng Nghymru (Ogbonna, 2020, t.18).

Cyhoeddir data ystadegol ar amodau tai ac ethnigrwydd yn Lloegr fel mater o drefn, fel rhan o'r Gwasanaeth Ffeithiau a Ffigurau Ethnigrwydd, ac er bod rhywfaint o ddata'n cael ei gasglu yng Nghymru, nid yw bob amser yn hygyrch. Bydd cynyddu hygyrchedd data yn cynyddu dealltwriaeth o natur unrhyw anghydraddoldebau hiliol ac yn hyrwyddo ymdrechion i fynd i'r afael â hwy.

Mae tystiolaeth o Loegr yn awgrymu bod grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i fyw mewn amodau tai gwaeth na’r boblogaeth Gwyn Prydeinig. Mae aelodau o grwpiau ethnig Bangladeshaidd, Pacistanaidd, Du Affricanaidd, Du Arall a Cymysg Gwyn / Du yn llawer mwy tebygol o fod â lleithder yn eu tai; ac mae pobl o dras Bangladeshaidd a Gwyn / Du Affricanaidd Cymysg yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi 'nad ydynt yn weddus’ o gymharu â grwpiau ethnig eraill (Llywodraeth y DU, 2019).[2] Yn ogystal, mae aelwydydd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi tanwydd (20% o aelwydydd) o gymharu ag aelwydydd Gwyn (9.7% o aelwydydd) (Llywodraeth y DU, 2019).

---

[1] Amcangyfrifir bod cyfran y preswylwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn 19.1% yng Nghaerdydd, 12.3% yng Nghasnewydd, ac 8.4% yn Abertawe, o'i gymharu â 5.5% ar gyfer Cymru gyfan (StatsCymru, 2021). Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol.

[2] Diffinnir cartref 'nad yw'n weddus' fel un lle mae unrhyw un o'r nodweddion canlynol yn berthnasol: 'nid yw'n diwallu'r safonau iechyd a diogelwch sylfaenol ar gyfer tai; nid yw mewn cyflwr rhesymol; nid oes ganddo gyfleusterau a gwasanaethau rhesymol o fodern; nid oes ganddo insiwleiddiad neu system wresogi effeithiol'. Mae 17% o holl gartrefi yn diwallu'r diffiniad hwn, o'i gymharu â 24% o aelwydydd Bangladeshaidd a 33% o aelwydydd Cymysg Gwyn / Du Affricanaidd (Llywodraeth y DU, 2019).

Mae ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi am Gymru yn awgrymu bod cyfraddau perchentyaeth yn is ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gyda chanrannau llawer uwch yn rhentu yn y sector rhentu preifat a chymdeithasol (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2020a)[3]. Mae cyfraddau gorlenwi yn uwch ar gyfer pob grŵp yng Nghymru o gymharu â Lloegr, ond maent yn effeithio ar grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn enwedig, a Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig (gyda 28.7% yn byw mewn amodau gorlawn), pobl Bangladeshaidd (27%) a Phobl Ddu eraill (26.9%) yn arbennig (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2020a). Mae hyn yn cymharu â 3.9% ar gyfer y grŵp sy'n cael ei effeithio leiaf gan orlenwi yng Nghymru, sef Pobl Wyn Gwyddelig, a chyfartaledd o 3% ar gyfer pob cartref yn Lloegr.[4]

Mae'r data ar orlenwi yng Nghymru yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011, ac felly mae'n bosibl nad yw'n adlewyrchu'r amgylchiadau cyfredol.[5] Fodd bynnag, mae'r darlun sy'n cael ei baentio yn awgrymu, ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol, ac yn enwedig ymhlith grwpiau ethnig penodol, bod tai yn fwy tebygol o fod yn is-safonol ac yn orlawn. Yn rhannol, mae hyn oherwydd y ffaith bod pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn aml yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn enwedig canol dinasoedd, yn ogystal â phatrymau ehangach o dlodi ac allgáu cymdeithasol (Gulliver, 2016).[6]

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar dri mater eang sydd wedi cael eu hamlygu gan waith ymchwil a data cyfredol:

- Ansawdd ac argaeledd tai;
- Digartrefedd a'r risg o ddigartrefedd; a
- Chydlyniant cymunedol ac arwahanu preswyl.

Nodwyd y gweithredoedd hyn trwy bedwar cam dadansoddi:

---

[3] Nid yw'r ystadegau'n cael eu dadansoddi yn ôl ethnigrwydd, ac yn Lloegr, mae rhai grwpiau ethnig yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi na phobl Wyn Prydeinig (Llywodraeth y DU, 2019).

[4] Mae 4.9% o bobl Wyn Prydeinig yng Nghymru'n byw mewn amodau gorlawan.

[5] Mae data o Loegr yn seiliedig ar Arolwg Tai Lloegr rhwng 2016 a 2019, ac felly yn fwy diweddar (Llywodraeth y DU, 2019).

[6] Gall y crynodiad hwn fod oherwydd patrymau hanesyddol o anheddu a chyflogaeth. Er enghraifft, roedd rheolau tai cymdeithasol hanesyddol oedd yn gofyn am gysylltiad sefydledig ag ardal leol yn eithrio (yn ddiarwybod efallai) ymfudwyr diweddar, gan eu gwthio at y sector rhentu preifat - ac, yn ystod y cyfnod mewnfudo ar ôl y rhyfel, at landlordiaid slym a thai o ansawdd is, a oedd yn fwy tebygol o dderbyn ceisiadau gan bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (Gulliver, 2016).

- Yn gyntaf, gwnaethom ddadansoddi'r dystiolaeth, yr adroddiadau polisi a'r adolygiadau gorau sydd ar gael, sy'n gwneud argymhellion ar gyfer lleihau anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru a'r DU i nodi argymhellion cylchol neu 'mathau' o ymyriadau (gweler Atodiad 2).
- Yna, fe wnaethom ni brofi a mireinio'r rhain gydag arbenigwyr academaidd.
- Nesaf, gwnaethom gynnal adolygiad pellach o dystiolaeth llenyddiaeth academaidd a llwyd sy'n gysylltiedig â phob un o'r ymyriadau hyn, gyda'r nod o sefydlu pa rai o'r argymhellion hyn sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf os cânt eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Yn olaf, adolygwyd yr adroddiad gan gymheiriaid ac arbenigwyr yn y maes, sef Alicja Zalesinksa (Tai Pawb) a Dr Victoria Showumni (Coleg Prifysgol Llundain).

Mae'r achosion, y canlyniadau a'r atebion i anghydraddoldeb hiliol yn rhyng-gysylltiedig ac felly mae angen newid ar draws ystod o feysydd polisi a gwasanaethau cyhoeddus a thu hwnt i'r sector cyhoeddus. Felly, dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â phum adroddiad cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar **arweinyddiaeth a chynrychiolaeth, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac incwm a throsedd a chyfiawnder** (gweler Atodiad 1), ac adroddiad cyffredinol (sydd ar ddod) sy'n tynnu canfyddiadau ac argymhellion trawsbynciol at ei gilydd.

# Gwella ansawdd tai

| Argymhelliad |
| --- |
| • Sicrhau bod anghenion tai ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael ystyriaeth deilwng yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan adeiladu ar yr ymrwymiadau presennol a'u gweithredu. |

Er mwyn gwella deilliannau tai ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, bydd angen gweithredu er mwyn gwella cyflwr stoc tai o bob math (tai cymdeithasol, tai rhent preifat a thai sy’n cael eu meddiannu gan berchnogion), yn ogystal â chynyddu’r posibilrwydd o berchentyaeth. Bydd mesurau cyffredinol i gynyddu’r posibilrwydd o gyflogaeth ac incwm ar gyfer grwpiau Du, Asiadd a lleiafrifoedd ethnig yn darparu cymorth i gyflawni hyn, ac fe'u hystyrir yn 'Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Cyflogaeth ac Incwm', sef adroddiad ar wahân yn y gyfres hon (Atodiad 1).

Yn ogystal, mae ymyriadau tai penodol a grybwyllwyd ac a archwilir isod yn cynnwys:

- Cynyddu rôl Cymdeithasau Tai BME i ddarparu tai cymdeithasol wedi'u targedu sy'n diwallu anghenion penodol grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Gulliver, 2016).[7]
- Adlewyrchu anghenion cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys mesurau penodol i fynd i'r afael â gorlenwi) mewn cynlluniau datblygu ac asesiadau tai lleol (Ogbonna, 2020; Race Alliance Wales, 2020). Amlygwyd anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr fel maes sydd angen sylw mwy penodol.
- Cynyddu'r ddarpariaeth gyffredinol o dai fforddiadwy a chymdeithasol, oherwydd bydd hynny'n cael effaith anghymesur a chadarnhaol ar grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Race Alliance Wales, 2020).
- Cefnogi ffoaduriaid i gael mynediad at 'lety symud ymlaen' ar ôl hawliad lloches llwyddiannus (Ogbonna, 2020; Race Alliance Wales, 2020). Mae cefnogaeth ychwanegol i geiswyr lloches yn cynnwys diwallu anghenion ceiswyr lloches amddifad a sicrhau bod y ddarpariaeth dai o safon ddigonol. Mae'r argymhellion hyn eisoes yn y broses o gael eu hymchwilio a'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn (Llywodraeth Cymru, 2020b). Fodd bynnag, dylent gael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, ynghyd â mesurau i gefnogi llety o ansawdd gwell i ymgeiswyr lloches a strategaeth i fynd i'r afael â digartrefedd cudd ymysg y boblogaeth ffoaduriaid.

Mae pryderon pellach yn cynnwys y risg cynyddol o ddod yn ddigartref ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a chwestiynau ynghylch arwahanu preswyl.

## Cymdeithasau Tai BME

| Argymhellion |
| --- |
| • Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu gwaith ymchwil i werthuso effeithiolrwydd Cymdeithasau Tai BME yng ngwledydd eraill y DU, er mwyn asesu a ddylid sefydlu un yng Nghymru. |

[7] 'Cymdeithasau Tai BME' yw'r term a ffefrir gan y sector, gan gyfeirio at bobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'n cael ei ailadrodd yn yr adroddiad hwn i adlewyrchu'r defnydd hwn.

Mae Cymdeithasau Tai BME yn gwasanaethu cymunedau lleiafrifol (dros 80% o rentau) ac fe'u harweinir gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar lefel cyfarwyddwr (Gulliver, 2016).[8] Maent yn darparu ar gyfer anghenion tai penodol cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac yn cynnig gwasanaethau diwylliannol sensitif a pherthnasol.

Ystyriwyd creu Cymdeithas Tai BME yng Nghymru fel rhan o Gynllun Gweithredu Tai BME 2002, ond roedd yr astudiaeth ddichonoldeb ddilynol yn argymell 'sefydliad tai eilaidd' a fyddai'n gweithredu gyda sefydliadau landlord i hyrwyddo a chynorthwyo anghenion tai ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002; Prosiect Tai BME 2003).[9] Efallai bod hyn oherwydd cydgrynhoad cyfoes o'r sector tai BME yn Lloegr ac ymdeimlad yn y sector tai ehangach bod cymdeithasau tai BME wedi rhedeg eu cwrs am nifer o resymau (Stott a Fava, 2019). Fodd bynnag, efallai bod hi’n werth ailystyried yr opsiwn.

Er bod y sector lawer yn llai o ran maint o gymharu â'i frig, mae ei gorff cynrychioliadol yn dadlau y gallai cymdeithasau tai, gan ac ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, barhau i helpu i ddiwallu anghenion tai nodedig trwy eu gwreiddiau mewn cymunedau amrywiol a'u dealltwriaeth ohonynt (BME National, 2017). Mae hyn yn cynnwys anghenion pobl hŷn Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a ystyrir yn fanylach isod. Yn ogystal, gallai Cymdeithas Tai BME helpu i fynd i’r afael â phryderon bod diffyg cynrychiolaeth ymhlith staff cymdeithasau tai yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth o anghenion cymunedol penodol. Mae staff Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli yn enwedig ar fyrddau cymdeithasau tai (Tai Pawb, 2020a), a gallai gofynion amrywiaeth y bwrdd ar gyfer Cymdeithasau Tai BME helpu i gynyddu cynrychiolaeth yn fwy cyffredinol.[10]

Prin yw'r dystiolaeth (er bod rhywfaint o gefnogaeth storïol) i gefnogi'r honiad mai Cymdeithasau Tai BME sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r nodau hyn. Felly, fel cam cyntaf, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno cynnal astudiaeth newydd o ran dichonoldeb ac effeithiolrwydd Cymdeithas Tai BME yng Nghymru.

---

[8] Gweler troednodyn 7 uchod ar derminoleg.

[9] Mae rôl debyg yn cael ei chwarae ar hyn o bryd gan Tai Pawb, er nad yw ei gylch gwaith, fodd bynnag, yn canolbwyntio'n llwyr ar gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae BAWSO, y darparwr gwasanaethau arbenigol Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hefyd yn cynnig cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth i ganiatáu i denantiaid preifat a chymdeithasol gynnal eu tenantiaethau.

[10] Mae'n bwysig nodi bod mesurau ar waith i gynyddu cynrychiolaeth, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol, ym maes cymdeithasau tai yng Nghymru (Tai Pawb, 2020b). Efallai y bydd Cymdeithas Tai BME yn ategu, yn hytrach nag yn disodli'r angen am yr ymdrechion hyn.

## Deall anghenion Cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

**Argymhellion**

- Dylid casglu data mwy diweddar ar gyfraddau, dadansoddiad demograffig a lleoliadau tai gorlawn yng Nghymru. Yna dylid datblygu strategaeth i leihau gorlenwi, wedi'i thargedu at yr ardaloedd lle mae'r nifer uchaf o achosion.
- Gallai mesurau dros dro fel blaenoriaethu cartrefi sydd eisoes yn orlawn ar restrau aros tai cymdeithasol helpu, os oes stoc briodol ar gael.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad wedi'i ddiweddaru o anghenion tai diwylliannol penodol, yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru.
- Dylid gwneud mwy o ymdrech i ymgysylltu â thenantiaid a pherchnogion tai Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys trwy allgymorth ac ymgysylltu rhagweithiol. Dylid dysgu oddi wrth arfer gorau o fewn y sector.

Nid oes model sy'n addas i bawb ar gyfer tai Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, oherwydd bydd gan bobl o wahanol grwpiau diwylliannol ac ethnig ofynion gwahanol. Gan fod anghenion tai yn croestorri â nodweddion eraill fel anabledd corfforol, bydd gofynion unigol gwahanol hefyd. Serch hynny, mae rhai anghenion y gellir eu nodi, a materion penodol y dylid mynd i'r afael â nhw.

Mae gorlenwi wedi bod yn ffocws penodol ers dyfodiad y pandemig Coronafeirws. Mae aelwydydd mwy o faint na'r cyfartaledd cenedlaethol, lle mae'n fwy tebygol bod pobl o wahanol genedlaethau yn byw gyda'i gilydd, yn golygu bod gorlenwi yn broblem benodol ymhlith rhai grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan dlodi a diffyg o ran y stoc tai sydd ar gael. Mae tystiolaeth a roddwyd i Senedd y DU gan Cym D'Souza o BME National yn awgrymu nad yw tai fforddiadwy a chymdeithasol tair ystafell wely yn cael eu darparu ar y raddfa ofynnol (Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, 2020).[11] Mae'n ymddangos bod hyn wedi bod yn broblem ers cryn amser (Jones, 2010). Ni all landlordiaid

---

[11] Dim ond 5,008 o'r cyfanswm o 231,413 o anheddau rhent cymdeithasol yng Nghymru sydd â phedair ystafell wely neu fwy, er bod gan 84,955 o anheddau dair ystafell wely yn union (StatsCymru, 2019). O'r 1,759 o anheddau newydd a adeiladwyd yng Nghymru rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019, roedd 445 ohonynt yn cynnwys pedair ystafell wely neu fwy, er bod hynny'n cynnwys yr holl anheddau newydd, yn hytrach na thai cymdeithasol yn unig (StatsCymru, 2020b).

cymdeithasol ganiatáu gorlenwi yn eu heiddo, felly gall teuluoedd na allant gael mynediad at dai cymdeithasol o faint sy'n briodol i'w hanghenion gael eu gwthio at lety gwaeth, rhent preifat neu lety sydd o dan berchnogaeth (Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, 2020). Fodd bynnag, bydd angen cynnal mwy o waith ymchwil i nodi graddfa bresennol y gorlenwi yng Nghymru. Gallai hyn adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil pellach mewn ymateb i adroddiad yr Athro Ogbonna ar ran yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2020b).

Mae’r mesurau y gellid eu cymryd yn y cyfamser yn cynnwys blaenoriaethu cartrefi gorlawn ar restrau aros tai cymdeithasol, a allai gael effaith tymor byr, ond a fydd yn dibynnu ar y stoc dai sydd ar gael mewn ardaloedd awdurdodau lleol. Gellid hefyd ystyried mesurau fel cymell tenantiaid i gaffael cartrefi mwy yn y sector preifat, neu gymell y sector preifat i ddarparu cartrefi mwy ar brydles (Jones, 2010).

Y tu hwnt i fynd i’r afael â materion penodol tlodi, digartrefedd (a ystyrir isod) a gorlenwi, ymddengys mai ychydig o waith ymchwil diweddar sydd wedi cael ei wneud o ran anghenion tai cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Er bod bron dau ddegawd wedi mynd heibio ers iddo gael ei gynnal, cynhaliodd y Prosiect Tai BME (2003) gyfweliadau grwpiau ffocws gydag aelodau grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru sy'n cyfleu anghenion diwylliannol, yn ogystal â materol, gan gynnwys:

- Yr angen amlwg am fannau awyr agored preifat, sydd yn enwedig o fudd i ferched Mwslimaidd sy'n cadw at reolau gwyleidd-dra sy'n deillio o grefydd;
- Mwy o gyfleusterau toiled a golchi mewn tai, a mannau paratoi bwyd mwy; a
- Sensitifrwydd diwylliannol, gan gynnwys deall y gallai rhai ardaloedd fod yn anaddas ar gyfer lleoliad tai, oherwydd achosion uwch o aflonyddu hiliol.

Er y byddai llawer o'r anghenion hyn yn fuddiol yn ehangach - ychydig o bobl fyddai'n gwrthod ceginau mwy neu ystafelloedd ymolchi ychwanegol - mae'n bwysig cydnabod bod y rhain yn anghenion diwylliannol neu gymdeithasol penodol i rai unigolion neu grwpiau; ac i adlewyrchu hyn mewn datblygiadau a chynigion tai.

Yn ogystal, nododd yr un gwaith ymchwil wahaniaethau cenedliadol, gyda'r genhedlaeth iau yn fwy ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt, ac yn llai tebygol o gael eu cyfyngu gan ddisgwyliadau diwylliannol, gan gynnwys teuluoedd estynedig sy'n byw yn yr un eiddo neu gerllaw[12] (roedd hyn hefyd yn nodedig ymhlith y menywod a ymatebodd). Felly, mae'n bwysig cynnal asesiad wedi'i ddiweddaru o'r anghenion tai penodol ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig er mwyn deall anghenion cyfredol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ymgysylltu ag ystod o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; cynrychioli pob grŵp oedran, rhyw a lefel o ymlyniad diwylliannol â'r gymuned, yn hytrach na bod yn seiliedig ar 'grwpiau cymunedol'. Mae adroddiad 2003 hefyd yn dangos bod ymatebion gan 'henuriaid' gwrywaidd yn bennaf yn tueddu i fod yn wahanol i ymatebion grwpiau iau.

Mae hefyd yn bwysig cael asesiad cyfredol o anghenion tai pobl hŷn o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth ar gyfer symud i lety gwarchod, neu fathau eraill o gymorth a gofal diweddarach mewn bywyd. Mae gan rai grwpiau ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r gwasanaethau hyn, ac efallai nad oes gan y gwasanaethau eu hunain yr ymwybyddiaeth ddiwylliannol na'r gallu allgymorth i'w gwasanaethu nhw'n iawn (Jones, 2008). Gall byw â chymorth fod yn gysyniad diwylliannol anghyfarwydd, yn enwedig ymhlith pobl o Dde Asia, sydd â thraddodiad hirsefydlog o ofal sy'n cael ei ddarparu gan deulu (Jones, 2008).

Bydd deall sut mae'r anghenion hyn yn croestorri, a phrofiad gwahanol anghenion o fewn cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn hanfodol o ran llywio'r ddarpariaeth dai briodol yn y dyfodol, ond mae'r sector yn cydnabod bod ymgysylltu yn parhau i fod yn fater anodd.[13] Yn rhannol, gall hyn fod oherwydd problemau gydag ymwybyddiaeth o wasanaethau a mynediad atynt: mae ymchwil ar wasanaethau digartrefedd (a drafodir isod) yn dangos bod grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn ddiarwybod o'r cymorth sydd ar gael iddynt, i deimlo eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol neu wedi'u hynysu, ac i wynebu rhwystrau iaith wrth gael mynediad at wasanaethau (Campbell, 2015). Gallai darparu allgymorth gwell helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn, ac mae awgrymiadau arfer gorau yn cynnwys darparu gwybodaeth am dai yn rhagweithiol, a darparu gwybodaeth mewn ystod o fformatau a chyfryngau i alluogi tenantiaid i gael mynediad at y wybodaeth mewn sawl ffordd (Tai Pawb 2005; Tai Pawb 2012).

---

[12] Yn gyffredinol, mae mewnfudwyr ail genhedlaeth yn ffafrio tai tebycach i frodorion, o gymharu â mewnfudwyr cenhedlaeth gyntaf, gan adlewyrchu'r newid hwn ymhellach (Coulter a Casey, 2019). Fodd bynnag, gall presenoldeb effaith 'cenhedlaeth gyntaf ym mhob cenhedlaeth' mewn rhai cymunedau gymhlethu'r darlun hwn (Casey, 2016).

[13] Nid yw hyn yn benodol i Gymru, gan fod ymchwil wedi canfod bod grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hefyd yn fwy tebygol o gael eu hanwybyddu o ran ymgysylltu yng Ngogledd Iwerddon (Muir a McMahon, 2015).

## Anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**Argymhellion**

- Dylid deall anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn glir. Dylid ymdrechu i gael gwell data am nifer y Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu 'cartrefu'. Dylai asesiadau anghenion tai ystyried awydd rhai o'r rheini sy'n cael eu 'cartrefu' i ddychwelyd at ffordd o fyw mwy traddodiadol.
- Dylai awdurdodau lleol gynyddu nifer y lleiniau sydd ar gael i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys darparu mannau aros dros dro.

Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddosbarthiad amrywiol o bobl sydd yn draddodiadol wedi cadw at ffordd o fyw grwydrol.[14] Er bod hyn yn parhau i fod yn rhan bwysig o dreftadaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr, nid yw niferoedd cynyddol yn cadw at ffordd o fyw grwydrol mwyach. Er ei bod yn anodd dod o hyd i ffigurau manwl, yn enwedig gan fod cymaint o bobl o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dewis cuddio eu cefndir ethnig er mwyn osgoi gwahaniaethu, amcangyfrifir bod dros hanner, ac o bosibl i fyny at dri chwarter o Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru yn byw mewn llety brics a morter (Shelter, 2008; Llywodraeth Cymru, 2015)[15]. Mae hynny'n golygu, wrth ddiwallu anghenion tai'r cymunedau hyn, bod yn rhaid ystyried y ddau grŵp, sef y rheini sy'n parhau i fyw bywydau crwydrol a'r rheini sy'n byw mewn ffordd fwy sefydlog. Yn ogystal, rhaid ystyried anghenion y rheini sydd yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i fabwysiadu ffordd o fyw sefydlog, a'r rheini sy'n dymuno dychwelyd at gymuned fwy traddodiadol (Shelter, 2008). Mae'r elusen, Gypsies and Travellers Wales, yn awgrymu bod llawer o'r rheini sy'n byw mewn llety brics a morter ar restrau aros am leiniau ar safleoedd pwrpasol (Gypsies and Travellers Wales, n.d.). Gall Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n byw mewn tai deimlo 'trawma

[14] Mae gan wahanol grwpiau dreftadaeth a normau diwylliannol neilltuol: er enghraifft, mae grwpiau Romani a Roma yn hanu o grwpiau a adawodd India, tra bod Teithwyr Gwyddelig yn rhannu diwylliant sy'n seiliedig ar dreftadaeth frodorol Wyddelig (Shelter, 2008). Mae yna hefyd 'Deithwyr Newydd' sy'n hanu o grwpiau a fabwysiadodd ffordd o fyw grwydrol yn y 1960au.

[15] Nid yw'n eglur a yw 'llety brics a morter' i fod i gyfeirio'n gyson at dai yn gyffredinol, neu a yw weithiau'n eithrio (er enghraifft) strwythurau mwy parhaol ar safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr pwrpasol. Gall hyn hefyd esbonio'r anghysondeb eang mewn ffigurau.

diwylliannol' a'u bod yn cael eu hallgáu yn gymdeithasol, sy'n gallu arwain at ddeilliannau corfforol a meddyliol negyddol (Greenfields, 2009).

Mae gwaith blaenorol yng Nghymru wedi nodi prinder hanesyddol o leiniau a safleoedd sy'n rhy fach i ddarparu ar gyfer mwy na grŵp teulu estynedig (Prosiect Tai BME, 2003). Mae peth tystiolaeth bod prinder lleiniau o hyd, a bod rhai safleoedd mewn lleoliadau anaddas, i ffwrdd o gyfleusterau cymunedol (Gypsies and Travellers Wales, nd). Mae llawer o safleoedd mewn lleoliadau annymunol neu beryglus, er enghraifft wrth ymyl ffyrdd prysur neu'n agos at unedau diwydiannol (Llywodraeth Cymru, 2003). Mae diffyg darpariaeth addas, gan gynnwys mannau aros dros dro, yn cyfrannu at allgáu cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol gwael (Greenfields, 2009). Gall gwrthwynebiad mynych i safleoedd a gynlluniwyd gan y gymuned 'sefydlog' gynnwys cam-drin a gwahaniaethu, a gall arweinyddiaeth wan olygu na chlywir llais gwrthgyferbyniol cryf (Greenfields, 2009).

Mae hyn yn golygu, er bod cyfraith Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu llety digonol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, nid yw hynny'n cael ei roi ar waith yn aml. Ar hyn o bryd mae 405 o leiniau awdurdodau lleol ar gael yng Nghymru, ar gyfer cymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n cynnwys o leiaf 2,785 o bobl (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2020c; Llywodraeth Cymru, 2015)[16]. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd o gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae safleoedd carafanau anawdurdodedig yn parhau i fod yn broblem, ac mae nifer anhysbys o bobl o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn byw mewn tai, nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu o bosibl, felly mae angen gweld cynnydd cyflymach yn y ddarpariaeth o hyd. Er y gellir darparu rhan o hyn trwy ddarpariaeth gyhoeddus, bydd cefnogi rhwydwaith o safleoedd preifat sy'n ehangu (er enghraifft trwy egluro a symleiddio'r broses gynllunio) hefyd yn helpu i ddiwallu'r angen hwn.

Yn ogystal, mae angen cefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n cynnal ffordd o fyw grwydrol. Gallai mannau aros pwrpasol neu ffyrdd amgen o ddarparu tai, er enghraifft prydles tir, helpu mewn achosion o'r fath, a bydd gwella mynediad at gyflogaeth ac incwm yn helpu i gynnal annibyniaeth y teuluoedd hyn.

Mae canllawiau arfer gorau ac adolygiadau llenyddiaeth yn awgrymu bod angen allgymorth ac ymgysylltu gweithredol er mwyn diwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Greenfields et. Al., 2016; Greenfields, 2009). Mae hyn

[16] Mae'r ffigwr hwn yn debygol o gynrychioli tangyfrif sylweddol, gan fod llawer o bobl o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cuddio eu hunaniaeth er mwyn osgoi gwahaniaethu neu oherwydd eu bod nhw'n ofni cael eu herlid gan y wladwriaeth (Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb, 2019).

yn arbennig o bwysig oherwydd bod gan gymunedau teithiol hanes hir o erledigaeth gan wladwriaethau a llywodraethau, ac felly gallant fod yn amharod i ymgysylltu.

Bydd ymgynghori gweithredol hefyd yn helpu awdurdodau i ddeall pa gyfleusterau a lleiniau sydd eu hangen, a ble y dylid lleoli safleoedd. Dylid amseru ymgynghoriadau i osgoi amseroedd o'r flwyddyn pan fydd teithio'n digwydd, yn enwedig rhwng mis Ebrill a mis Hydref (Greenfields et. Al., 2016). Gallai ymgynghori a chynnal deialog â chymunedau 'sefydlog' lleol liniaru tensiynau cymunedol, ac mae eisoes yn rhan o ganllawiau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015).

## Cynyddu argaeledd tai cymdeithasol a fforddiadwy

### Argymhellion

- Cynnwys data am anghenion grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn asesiadau o'r Farchnad Dai Leol.
- Sicrhau bod data o asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn cael ei ddefnyddio i lywio lleoliad a manyleb datblygiadau tai.
- Parhau i ymdrechu i gynyddu'r stoc tai a'r gyfradd adeiladu tai o ran tai cymdeithasol a fforddiadwy, a fydd yn elwa cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Dylid gwneud gwaith i sefydlu a yw strwythur cyfredol grantiau tai cymdeithasol yn rhwystr at ddarpariaeth.
- Dylid ystyried ymyriadau sy'n targedu lle mae cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi'u crynhoi, er mwyn helpu i wella amodau tai.

Oherwydd bod grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli yn y sectorau tai cymdeithasol a rhentu preifat, ac yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi, gallai cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy fod o fudd anghymesur i'r grwpiau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, fel y mae pob prif blaid wleidyddol yn y Senedd, i gynyddu cyfanswm y stoc o dai cymdeithasol, yn ogystal â chyfradd adeiladu tai cymdeithasol newydd. O ganlyniad, bydd cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn cael effaith fawr. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r adborth o'r tu mewn i'r sector, mae'r adran hon yn nodi rhai ymyriadau a chynigion penodol, ac awgrymiadau o ffyrdd y gellid diwallu anghenion cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig drwyddynt. Mae hefyd yn wir, fodd bynnag, y bydd darpariaeth gyffredinol yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ddiwallu angen tai sydd heb ei ddiwallu.

Fel y nodwyd uchod, pryder penodol fydd sicrhau bod y gymysgedd o dai newydd yn cynnwys digon o stoc mwy o faint i ddiwallu anghenion cymunedau Du, Asiaidd a

lleiafrifoedd ethnig. Gellid cyflawni hyn trwy fynnu bod anghenion grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hystyried mewn asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, yn unol â'r hyn mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn ei wneud, er enghraifft Caerdydd (Dinas Caerdydd, 2015). Mae asesiadau o'r Farchnad Dai Leol wedi'u cynllunio i lywio strategaethau tai a chynllunio awdurdodau lleol, gan gynnwys cynllunio ar gyfer darparu tai fforddiadwy, a bydd cynnwys data am grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn helpu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Gallai hynny gynnwys ymgynghori uniongyrchol yn ogystal â dadansoddi data.

Gellid hefyd rhoi mwy o sylw i ddata perthnasol fel amddifadedd, gorlenwi a maint cyfartalog cartrefi yng nghynlluniau datblygu awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, gan fod y rhain yn bresennol yn anghymesur ymhlith rhai cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn adeiladu ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sydd hefyd yn nodi y dylai asesiadau o'r Farchnad Dai Leol gael eu hymgorffori'n well gyda Chynlluniau Datblygu Lleol (Pamment, 2019).

Byddai gwerthuso'r mesurau hyn yn fanwl yn helpu i lywio arfer yn y dyfodol o ran eu heffeithiolrwydd, gan nad oes llawer yn bodoli ar hyn o bryd. Dylid cymryd camau i sicrhau bod y mesurau hyn hefyd yn cael eu hystyried mewn datblygiadau tai newydd.

Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn fater o bwys mewn sawl rhan o Gymru. Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan (2019) yn awgrymu bod rhentau preifat a chymdeithasol yn anfforddiadwy ar gyfer y rheini sydd ar y cyflogau isaf, ac mae rhentau preifat yn anfforddiadwy i enillwyr canolog.[17] Mae prisiau tai yn costio ychydig o dan chwe gwaith incwm blynyddol y rheini sydd ar gyflogau is ar gyfartaledd yng Nghymru, er bod cryn amrywiad, gyda phrisiau ym Mlaenau Gwent ychydig dros dair gwaith incwm blynyddol, a phrisiau yn Sir Fynwy yn costio bron i wyth gwaith incwm blynyddol (Sefydliad Bevan, 2019).

Gan fod pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod ar gyflogau is, mae ganddynt lai o ddewis ynghylch argaeledd ac ansawdd y tai sydd ar gael iddynt, sy'n cymhlethu materion sy'n bodoli eisoes o ran ansawdd tai. Mae argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy (mewn perthynas â chynyddu cyfraddau adeiladu tai, ac ariannu a chefnogi caffaeliadau a

[17] O dan y diffiniad a ddefnyddir, ystyrir bod rhent sydd o dan 25% o enillion gros yn 'fforddiadwy'.

gwaith adeiladu lleol) yn sail dda ar gyfer cynyddu'r cyflenwad, ac felly dylid eu symud ymlaen (Pamment, 2019).

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol yn hyrwyddo'r defnydd o Ddulliau Adeiladu Modern (MMC; Llywodraeth Cymru, 2020c). Nod MMC yw hwyluso adeiladu tai ar raddfa y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflawni gan ddefnyddio technegau traddodiadol, y genhedlaeth newydd o dai parod neu ddulliau adeiladu modiwlaidd (Llywodraeth Cymru, 2020c). Er enghraifft, mae hyn yn darparu cyfle i gynyddu graddfa adeiladu tai trwy safoni rhannau. Yn gyffredinol, mae gan MMC y potensial i gynyddu cyfaint ac ansawdd adeiladu tai (Davies, 2018). Gallai buddsoddi yn y dulliau hyn a'u cyflwyno'n ehangach helpu i fynd i'r afael ag anghenion tai cymdeithasol sydd heb eu diwallu yn fwy cyffredinol, yn ogystal ag ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Gallai diwygio strwythurau grantiau tai cymdeithasol gyfrannu at sicrhau bod eiddo o faint a chyflwr priodol yn cael eu hadeiladu, er bod hwn yn faes pryder sy'n dod i'r amlwg a bydd angen cynnal mwy o waith ymchwil i sefydlu ei amlygrwydd fel ffactor.

Mae atebion polisi posibl eraill yn cynnwys adnewyddu eiddo adfeiliedig yng nghanol dinasoedd (trafodir isod). Mae rhai cynigion yn awgrymu dwysáu, hynny yw, cynyddu dwysedd tai – er nad yw hynny bob amser yn briodol i denementau neu flociau o fflatiau (Bessis, 2018). Er ei bod yn anodd ei gyflawni o fewn y system gynllunio gyfredol, ac efallai y byddant yn denu gwrthwynebiad lleol, gallai hyn gynyddu'r cyflenwad tai a dewis mewn ardaloedd lle mae grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn debygol o fod wedi'u crynhoi. Er ei bod yn anodd ei gyflawni o fewn y system gynllunio gyfredol, ac efallai y byddant yn denu gwrthwynebiad lleol, gallai hyn gynyddu'r cyflenwad tai a’r dewis mewn ardaloedd lle mae grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn debygol o fod wedi'u crynhoi. Bydd hyn hefyd yn helpu i wella ansawdd tai mewn ardaloedd lleol, gan atal gwasgariad cymunedau lle gallai hyn fod yn rhwystr i fynediad at dai (gweler isod). Bydd yn arbennig o bwysig ystyried croestoriad darpariaeth tai ag anghenion diwylliannol a chymunedol grwpiau lleol, fel bod datblygiadau wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf priodol, ac yn cynnwys y cymysgedd tai mwyaf priodol.

# Digartrefedd a'r risg o ddigartrefedd

## Argymhellion

- Dylai anghenion grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig fod yn rhan o strategaeth ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, gan flaenoriaethu allgymorth a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed.
- Sicrhau bod gan ffoaduriaid fynediad at 'lety symud ymlaen', a allai helpu i ostwng y gyfradd anghymesur o ymgeiswyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i Adran 75.
- Mae'r darpariaethau gwrth-ddigartrefedd a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig Coronafeirws yn sail dda ar gyfer strategaeth atal cysgu allan a digartrefedd tymor hir.

Mae grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref. Yn 2018/19, roedd 7% o ymgeiswyr atal digartrefedd llwyddiannus a 6% o ymgeiswyr rhyddhad rhag digartrefedd yng Nghymru o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, o dan ofynion Adran 73 Deddf Tai (Cymru) 2014 (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2019). Mae hyn yn cymharu â rhwng 5-6% o boblogaeth Cymru gyfan.[18] Fodd bynnag, ar fesur ar wahân, roedd 15% o'r cartrefi a aseswyd fel rhai digartref anwirfoddol o dan Adran 75 o'r Ddeddf o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2019). Mae hyn yn dangos bod angen blaenoriaethu, hyd yn oed ar ôl i ddyletswyddau Adran 73 gael eu cyflawni.

Er eu bod yn uwch na chyfran y grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth gyffredinol, mae cyfraddau cychwynnol Adran 73 yng Nghymru yn llawer llai anghymesur nag yn Lloegr, lle'r oedd 32% o aelwydydd digartref o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn yn 2017/18 (y data mwyaf diweddar sydd ar gael; Llywodraeth y DU, 2019). Mae'r anghymesuredd cynyddol wrth symud trwy'r system yn dangos y

[18] Amcangyfrifir bod poblogaeth Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru yn 5.5% yn 2020 (StatsCymru, 2021). Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mawrth 2019, y ffigwr oedd 5%, ond cyfrifwyd y ffigwr hwn fel canran o'r holl ymatebwyr i'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, yn hytrach nag fel canran o'r holl ymatebwyr a ddatganwyd eu hethnigrwydd - felly gallai fod yn dangyfrif.

gallai fod problemau parhaus wrth ymgysylltu ag anghenion aelwydydd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'u diwallu.

Efallai bod hyn yn adlewyrchu polisi digartrefedd mwy datblygedig Cymru, yn ogystal ag absenoldeb rhai amodau (megis 'Hawl i Rentu', sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod gan ddarpar denantiaid yr hawl gyfreithiol i fyw yn y DU) sydd, o bosibl, yn achosi digartrefedd ymhlith rhai pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr (Garvie, 2017).

Mae ymchwil gan Shelter Cymru yn awgrymu y gall gor-gynrychiolaeth ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys tlodi, allgáu cymdeithasol a diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael (Campbell, 2015). Nid yw rhai grwpiau, yn enwedig ymfudwyr, yn ymwybodol o'r help sydd ar gael, neu'n methu â chael mynediad iddo oherwydd rhwystrau iaith. Gall eraill gael eu heithrio o'r gymdeithas ehangach, neu deimlo eu bod yn cael eu heithrio, weithiau oherwydd pwysau diwylliannol fel rolau rhywedd a orfodir yn llym, sy’n gorfodi menywod i aros adref.[19] Mae diffyg llety addas, a phryderon am allgáu cymdeithasol pellach mewn rhai ardaloedd, hefyd yn chwarae rôl. Yn olaf, mae grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn dioddef o'r un ffactorau risg â phoblogaethau mwyafrifol: tlodi; diffyg profiad neu allu i fyw'n annibynnol; materion iechyd meddwl neu gorfforol; a cham-drin sylweddau (Campbell, 2015). Efallai bod cyfraddau is o berchentyaeth, a mwy o ddibyniaeth ar lety rhent preifat a chymdeithasol, hefyd yn chwarae rôl (Garvie, 2017).

Gall rhai achosion o ddigartrefedd fod yn 'gudd' gan fod perthnasau yn gofalu am deuluoedd neu unigolion yn hytrach nag ymgysylltu â darpariaeth statudol. Gallai hyn gyfrannu at orlenwi ac amodau tai gwael, felly bydd yn bwysig asesu'r gyfradd y mae hyn yn digwydd.

Ffactor arall yw effaith y fframwaith tai statudol ar dai ffoaduriaid. Mae digartrefedd a brofir o ganlyniad i orfod gadael llety'r Swyddfa Gartref yn sbardun sylweddol i ddigartrefedd Adran 75 ymhlith pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru (Caint, 2019).

---

[19] Er enghraifft, mae tystiolaeth o 'ferched ifanc Yemenïaidd nad oeddent erioed wedi ymweld â chanol dinas [Caerdydd]’ er gwaethaf byw yn Nhre-biwt, ychydig i'r de o ganol y ddinas (Campbell, 2015: 9). Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen strategaethau integreiddio gweithredol yn ogystal ag allgymorth.

Yn rhannol, mae hyn oherwydd y diffyg cyfatebiaeth rhwng hyd y cyfnod symud ymlaen, lle mae'n rhaid i ffoaduriaid ddod o hyd i lety newydd (28 diwrnod), a'r cyfnod 'atal digartrefedd' (56 diwrnod) a sefydlwyd o dan gyfraith tai Cymru.[20]

Ychydig o dystiolaeth ymchwil sydd ar gael am ymyriadau ar gyfer poblogaethau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, er bod rhai arwyddion eu bod yn profi canlyniadau gwaeth o gymharu â grwpiau poblogaeth eraill (Sheikh a Teeman, 2018). Fodd bynnag, yn debyg i grwpiau poblogaeth eraill, bydd mynd i'r afael â'r risg o ddigartrefedd yn galw am gymysgedd o ymyriadau, gan gynnwys y rheini (megis lleihau tlodi a chynyddu mynediad at dai addas) a nodwyd uchod.

Bydd cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, ac yn benodol gweithio i ymgysylltu â chymunedau ynysig neu eithriedig, yn arbennig o bwysig, yn enwedig gan fod ffocws cynyddol bellach ar atal digartrefedd ‘ymhellach i fyny'r nant’ (hynny yw, ymyrryd cyn digartrefedd gwirioneddol neu pan fo unigolion o dan fygythiad digartrefedd i gynnig cefnogaeth neu wasanaethau).[21] Gallai strategaethau cynhwysiant cymdeithasol neu integreiddio ehangach weithio'n weithredol i gyfeirio gwasanaethau i ddefnyddwyr, sydd eisoes yn ffurfio rhan o awgrymiadau arfer gorau (Tai Pawb, 2005; Tai Pawb, 2012).

Gellid ymestyn y mesurau tai a weithredwyd i atal cysgu allan yn ystod y pandemig Coronafeirws, gan gynnwys cymorth i symud i lety parhaol a newidiadau i'r broses troi allan, i fod yn sail i ddarpariaeth hirdymor (Llywodraeth Cymru 2020b). Mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth wrth ddelio â'r rheini nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus, ond gellid dysgu gwersi o'r cymorth a oedd ar gael iddynt yn ystod yr argyfwng presennol ac ymrwymiadau'r llywodraeth i fynd i'r afael ag anghenion tai ffoaduriaid (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu adroddiad ar ddarpariaeth bosibl ar gyfer y rhai nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus, y credir bod eu hargymhellion yn gydnaws â'r gyfraith bresennol (Petch a Stirling, 2020).

---

[20] Nid yw'r adolygiad hwn wedi ystyried tai ffoaduriaid yn fanwl, gan fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud cyfres o ymrwymiadau mewn perthynas â'r mater hwn (Llywodraeth Cymru, 2020b). Bydd yn bwysig dilyn y rhain gyda chamau gweithredu.

[21] Yn flaenorol, mae'r CPCC wedi cyhoeddi gwaith yn asesu mesurau ataliol ar gyfer digartrefedd ymhlith pobl ifanc, sy'n cynnwys teipoleg o ymyriadau (Schwan et. al., 2018).

# Cydlyniant cymunedol ac arwahanu preswyl

**Argymhellion**

- Gwella ansawdd tai a lleoli mwy o ddatblygiadau tai mewn ardaloedd, neu'n agos at ardaloedd lle mae cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi'u lleoli, a hyrwyddo cymdogaethau cymysg yn gymdeithasol ac yn ethnig.
- Adnewyddu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru gyda ffocws ar gynyddu rhyngweithio cymdeithasol rhwng grwpiau, meithrin ymdeimlad o bwrpas cyffredin, a hyrwyddo diwylliant a chymdeithas unedig yng Nghymru.

Mae annog integreiddio a pherthyn yn golygu llawer mwy na pholisi tai yn unig, ond o ystyried effaith lleoliad a chyflwr tai ar integreiddio, mae'n bwysig ystyried ffyrdd y gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag arwahanu preswyl a chreu cymdogaethau mwy integredig, cymdeithasol ac ethnig amrywiol. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cydlyniant cymdeithasol, gan gynnwys normau a rennir a lefel uchel o ymddiriedaeth gymdeithasol, yn chwarae rhan bwysig wrth feithrin llywodraethiant democrataidd, yn ogystal â darparu ystod o fanteision cymdeithasol.[22]

Mae tystiolaeth bod arwahanu preswyl yn parhau i fod yn broblem yn y DU. Canfu Kaufmann a Cantle (2016), er y bu cynnydd o ran cymysgu rhwng grwpiau lleiafrifol yng Nghymru a Lloegr, bod arwahanu yn parhau rhwng grwpiau lleiafrifol yn eu cyfanrwydd a'r boblogaeth fwyafrifol Gwyn Prydeinig. Mae hyn yn awgrymu bod ymfudwyr newydd yn ymgasglu mewn ardaloedd sydd eisoes yn fwy amrywiol, a bod rhywfaint o symud tuag allan gan bobl Wyn Prydeinig.

I ryw raddau, mae hyn yn cynrychioli 'clystyru' ymhlith unigolion sy'n rhannu hunaniaeth ethnig neu (yn enwedig) grefyddol (Casey, 2016: 41 45). Mae yna

[22] Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi bod yn destun rhywfaint o ddadlau, o ystyried rhagdybiaeth amlycaf gwladwriaeth niwtral o ran gwerth, lle mae cwestiynau canolog am bwrpas a dibenion priodol dynoliaeth yn cael eu datganoli i unigolion neu grwpiau sy'n gweithredu o fewn fframwaith gwladwriaethol sy'n ddifater tuag at gynnwys y dibenion hyn (e.e. Rawls, 1985). Mewn gwrthgyferbyniad, roedd meddylwyr cynharach yn cydnabod pwysigrwydd moesoldeb a chred a rennir i lwyddiant llywodraethiant democrataidd (de Tocqueville, 2003). Atgyfnerthwyd y farn hon gan waith mwy diweddar sy'n awgrymu pwysigrwydd cyfalaf cymdeithasol, a ddiffinnir i raddau helaeth gan ymddiriedaeth gymdeithasol, ar gyfer cynnal a chreu cymdeithasau democrataidd (Paxton, 2002).

resymau cymdeithasol cadarnhaol pam y gallai clystyru ddigwydd, ac nid ymateb i allgáu cymdeithasol yn unig mohono. Er enghraifft, yr awydd i fod ymhlith perthnasau diwylliannol neu grefyddol, neu fynediad at yr adnoddau cymunedol y mae hynny'n ei olygu, fel addoldai neu fanwerthwyr arbenigol. Ond gallai clystyru hefyd adlewyrchu gwaharddiad canfyddedig neu wirioneddol o gymdeithas ehangach, neu ddiffyg integreiddio gydag ef.

Mae ymddiriedaeth gymdeithasol yn is lle mae amrywiaeth ethnig yn uwch, yn enwedig mewn cyd-destunau cymdogaeth leol, er bod yr effaith gyffredinol yn gymedrol (Dinesen et. Al., 2020).[23] Yn bwysig, fodd bynnag, ymddengys bod arwahanu preswyl yn cynyddu i ba raddau y mae amrywiaeth ethnig yn lleihau ymddiriedaeth gymdeithasol, ond gallai rhai mathau o gyswllt rhwng grwpiau wrthweithio'r gostyngiad hwn (Demivera, 2019). O ganlyniad, gallai lleihau arwahanu preswyl a hyrwyddo integreiddio diwylliannol a chymdeithasol gynyddu lefelau ymddiriedaeth gyffredinol, sy'n bwysig wrth gynnal cymdeithas gydlynol a democrataidd.

## Cynyddu integreiddio trwy ddarparu tai gwell

Gall clystyru ac arwahanu adlewyrchu patrymau ehangach o amddifadedd a thlodi: mae peth tystiolaeth bod cydberthynas uwch rhwng mynediad at adnoddau ac incwm uwch â chrynodiad ethnig (Coulter a Clark, 2019).[24] Gall hyn hefyd fod yn rheswm pam y gallai ymfudwyr mwy diweddar, o wahanol gefndiroedd ethnig, symud i gymdogaethau mwy amrywiol i gychwyn.

Mae pobl yn tueddu i symud pellteroedd byr o'u lleoliad gwreiddiol, ac mae grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i symud i ardaloedd mwy difreintiedig ar gyfartaledd, hyd yn oed mewn achosion lle mae eu sefyllfa dai yn gwella (Coulter a Casey, 2019). Gall hyn fod oherwydd bod ardaloedd sy'n agos at y 'man cychwyn' ar gyfer pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy difreintiedig - yn enwedig o ystyried y crynhoad trefol mawr o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.[25] Gallai datrysiadau tai sy'n benodol i le gynyddu opsiynau ac ansawdd tai,

[23] Mae'r dadansoddiad meta hwn yn tynnu ar dystiolaeth ryngwladol ond mae'n cynnwys sawl astudiaeth o'r DU, sy'n ailadrodd y duedd gyffredinol. Mae'r berthynas yn parhau i fod yn sylweddol wrth ystyried ffactorau dryslyd, gan gynnwys anghydraddoldebau economaidd.

[24] Nid yw presenoldeb neu absenoldeb crynodiadau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gwarantu integreiddio neu eithrio cymdeithasol, ond mae clystyru yn tueddu (er enghraifft) i arwain at rwydweithiau cymdeithasol llai amrywiol (Casey, 2016).

[25] Yng Nghymru, roedd 90% o bobl o grwpiau ethnig Asiaidd, 91.2% o bobl o grwpiau ethnig Du, 80.4% o bobl o grwpiau ethnig Cymysg ac 89.4% o bobl o grwpiau ethnig Eraill yn byw mewn ardaloedd trefol, yn ôl Cyfrifiad 2011 - o gymharu â 66.2 % ar gyfer pobl o grwpiau ethnig Gwyn, a 67% ar gyfer pobl yng Nghymru gyfan (Llywodraeth y DU, 2020).

gan roi mwy o ddewis tai i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â gwneud yr ardaloedd hyn o bosibl yn fwy deniadol i bobl o gefndiroedd ethnig Gwyn.

Gallai gwella ansawdd tai ym marchnadoedd tai canol dinas, gan gynnwys creu mwy o ddewis o ran mathau a meintiau'r anheddau, fod yn ffordd o gynyddu mynediad at dai o ansawdd da heb darfu'n ormodol ar rwydweithiau cymdeithasol presennol (Beider, 2012, t.143). Gallai'r polisi hwn gynnwys, er enghraifft, datblygiadau tai newydd yn agos at ardaloedd presennol sydd â phoblogaeth Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mwy, neu brynu ac adnewyddu eiddo adfeiliedig neu wag gan awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai (Beider, 2012). Pe bai'n cael ei weithredu ochr yn ochr â mwy o strategaethau integreiddio, a'i ddefnyddio i hyrwyddo cymdogaethau mwy cymysg yn gymdeithasol ac yn ethnig, gallai hyn helpu i leihau arwahanu wrth sicrhau mynediad parhaus at adnoddau cymunedol, i'r aelodau hynny o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd eu hangen.

## Integreiddio cymdogaethol

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod amrywiaeth ethnig yn lleihau ymddiriedaeth gymdeithasol, yn enwedig ar lefel gymdogaethol (Dinesen et. Al., 2020). O ganlyniad, byddai strategaethau integreiddio a chynlluniau gwrth-arwahanu yn arbennig o fuddiol pe byddent wedi'u lleoli'n lleol. Er nad dyna ganolbwynt yr adolygiad hwn, byddai manteision o ystyried strategaethau integreiddio ehangach, yn unol â'r polisi tai, ac felly cyflwynir rhai opsiynau. Mae'n ymddangos bod tystiolaeth yn cefnogi'r farn bod mwy o amrywiaeth yn arwain at effaith 'cyrcydu lawr', sy'n golygu bod ymddiriedaeth yn is mewn ardaloedd lle mae mwy o amrywiaeth, ymhlith grwpiau allanol a grwpiau mewnol (hynny yw, gyda phobl 'eraill' canfyddedig a chymrodyr canfyddedig), er i wahanol raddau (Dinesin et. al., 2020, t.451). Mae'r union fecanwaith ar gyfer y ffenomen hon yn parhau i fod yn anhysbys, er bod awgrymiadau ymgeiswyr yn cynnwys colli rhyngweithio cymdeithasol cyffredinol mewn cymdogaethau mwy amrywiol, lefelau is o gyfathrebu, neu lai o ymdeimlad o'r posibilrwydd o ymdrech casgliadol (Dinesin et. al., 2020, p.445).

Felly, mae'n debygol y bydd angen i ymdrechion integreiddio llwyddiannus gynyddu rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu rhwng grwpiau ethnig a meithrin ymdeimlad o bwrpas cyffredin. Mae hynny'n awgrymu bod angen adfywio ymdrechion cydlyniant cymunedol cyfredol, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion fel troseddau casineb a chaethwasiaeth fodern - ffocws sydd wedi'i feirniadu gan grwpiau fel y Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chefnogaeth Ieuenctid Cymru fel rhai gwrthgynhyrchiol mewn

rhai ffyrdd (Llywodraeth Cymru, 2016; Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 2017).[26]

Yn ogystal, clywodd ymchwiliad 2017 awgrymiadau, gan gynnwys cynorthwyo ffoaduriaid i gael mynediad at, ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon; cydnabod y cyfraniad y gall ffoaduriaid ei wneud; a mwy o wybodaeth am bwysigrwydd diwylliant ac iaith Cymru (Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 2017). Dadleuodd Adolygiad Casey dros greu cyfres o bolisïau integreiddio cryf, gan gynnwys hyrwyddo gwerthoedd a rennir yn gynyddol; cymorth i gael gwersi Saesneg; a mwy o gefnogaeth i newydd-ddyfodiaid (Casey, 2016: 168 9). Yn ddiweddar, mae Sefydliad Bevan hefyd wedi nodi cyfres o argymhellion ar gyfer integreiddio, gan gynnwys y gobaith o addewid a seremoni symbolaidd 'dinasyddiaeth Gymreig' ar gyfer ymfudwyr (Sefydliad Bevan, 2020). Gallai pob un o'r rhain chwarae rhan mewn strategaeth integreiddio newydd.

Yn ogystal, rhaid i ‘gymunedau lletyol’ fod yn barod i dderbyn a chroesawu ymfudwyr. O ystyried yr angen am bwrpas cyffredin, gellir llunio a chyfleu hyn yn well fel (yn nhermau Louise Casey) ymuno â thraffordd o slipffordd yn hytrach na’r metaffor cyffredin, sef 'stryd ddwy ffordd': hynny yw, dylai pobl ar y draffordd ddarparu ar gyfer, a sicrhau bod lle i newydd-ddyfodiaid, er bod pob un ohonom yn y pen draw yn teithio i'r un cyfeiriad (Newyddion y BBC, 2017). Gallai hynny leihau’r canfyddiad ymhlith y boblogaeth fwyafrifol Gwyn bod ymfudwyr a chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn sefyll ar wahân iddynt. Bydd hi yn bwysig, fel rhan o'r strategaeth hon, i barhau i fuddsoddi adnoddau i fynd i'r afael â throseddau casineb.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi, er bod mwyafrif yr argymhellion yn canolbwyntio ar ymfudwyr newydd a diweddar, bydd integreiddio cymunedau sefydlog sydd efallai wedi eu harwahanu’n breswyl neu'n gymdeithasol (gan gynnwys grwpiau ethnig mwyafrifol) yr un mor bwysig.

---

[26] Mae mynd i'r afael â materion fel troseddau casineb a chaethwasiaeth fodern yn parhau i fod yn flaenoriaethau pwysig wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, ac mae'r feirniadaeth yn cyfeirio at y syniad mai dyma'r unig bethau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cydlyniant cymunedol. I gael mwy o wybodaeth am fynd i'r afael â throseddau casineb, gweler Roberts (2020), adroddiad ar wahân yn y gyfres hon.

# Crynodeb

**Argymhellion**

- Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei Gynllun Gweithredu Tai Du, Lleiafrifoedd Ethnig cyfredol, sydd bellach yn ddeunaw oed, gyda chynllun gweithredu newydd, wedi'i lywio gan dystiolaeth, sy'n cynnwys ymrwymiadau penodol.
- Dylid gwneud mwy o ymdrech i gyrraedd cymunedau ynysig neu gymunedau sydd wedi'u hymddieithrio, gan gynnwys cynnal gwaith ymchwil i ddulliau cyfathrebu effeithiol.

Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried nifer o feysydd ac argymhellion o dan benawdau penodol. Fodd bynnag, mae yna ganfyddiadau mwy cyffredinol sydd wedi dod i'r amlwg o'r ymchwil ac sy'n werth eu hystyried.

Ychydig o ymchwil a gafwyd yn ddiweddar i anghenion tai penodol cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Er bod materion fel gorlenwi, ansawdd tai, a'r risg o ddigartrefedd yn cael eu deall ar lefel ystadegol, mae'n amlwg bod angen cynnal gwaith ymchwil pellach i'r meysydd hyn.

Bellach, mae cydraddoldeb hiliol yn cael ei ystyried yn rhan o strategaeth dai ehangach; er, mae rhywfaint o awgrym, yn seiliedig ar brofiad yn y sector, y gall hyn arwain at esgeuluso anghenion grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Er mwyn osgoi hyn, gellid diweddaru neu greu cynlluniau gweithredu penodol, yn enwedig gan fod y Cynllun Gweithredu Tai Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig cyfredol bellach yn ddeunaw oed.

Mae allgymorth, cyfathrebu ac ymgysylltu yn themâu cylchol yn yr adroddiad hwn, a dylid ystyried y ffyrdd gorau o gyrraedd cymunedau nad ydynt efallai eisoes yn ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus neu'n ymwybodol ohonynt. Gallai hyn fod yn rhan o strategaeth integreiddio a chynhwysiant ehangach.

Yn olaf, mae potensial i gysylltu rhai o'r argymhellion hyn â chynllun adfer ar ôl y pandemig Coronafeirws. Gallai adeiladu ac uwchraddio tai hyrwyddo adferiad economaidd, yn ogystal â bod o fudd anghymesur i gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig os darperir cyfleoedd gwaith a phrentisiaethau i bobl leol. Gellid hefyd ehangu ac adeiladu ar fesurau atal digartrefedd a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig fel rhan o strategaeth atal ehangach.

# Cyfeirnodau


Newyddion y BBC. (2017). **Louise Casey: Integration not a 'two-way street'.** Ar gael o: **https://bbc.in/3a9lbtx** (Saesneg yn unig)

Beider, H. (2012). **Race, Housing and Community: Perspectives on Policy and Practice.** John Wiley & Sons.

Bessis, H. (2018). **Is increasing density the answer to the land-squeeze in successful cities?** Centre for Cities. Ar gael o: **https://bit.ly/39kmS8n** (Saesneg yn unig)

Sefydliad Bevan. (2019). **State of Wales Briefing: Affordable Housing.** Ar gael o: **https://bit.ly/3a7yueb** (Saesneg yn unig)

Sefydliad Bevan. (2020). **Shared Ground: Integrating Migrants in Wales.** Ar gael o: **https://bit.ly/3a6v3El** (Saesneg yn unig)

Prosiect Tai BME. (2003). **Astudiaeth Dichonoldeb – Adroddiad Terfynol.** Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael o: **https://bit.ly/39niw0j** (Nid yw'r ddogfen hon ar gael trwy'r ddolen hon)

BME National. (2017). **Deep Roots, Diverse Communities, Dedicated Service: The Black and Minority Ethnic (BME) Housing Sector's Offer.** Ar gael o: **https://bit.ly/3chHFLQ** (Saesneg yn unig)

Campbell, J.A. (2015). **Homelessness amongst people from Black and Minority Ethnic populations in Wales.** Shelter Cymru. Ar gael o: **https://bit.ly/2NGwG4d** (Saesneg yn unig)

Casey, Dame L. (2016). **The Casey Review: A review into opportunity and integration.** UK Government. Ar gael o: **https://bit.ly/39om9TD** (Saesneg yn unig)

Dinas Caerdydd. (2015). **Local Housing Market Assessment 2015.** Ar gael o: **https://bit.ly/3qXoWZO** (Saesneg yn unig)

Coulter, G., and Clark, W.A.V. (2019). **Ethnic Disparities in Neighbourhood Selection: Understanding the Role of Income**. International Journal of Urban and Regional Research, vol. 43, no. 5, pp. 947-962. Ar gael o: **https://bit.ly/3iYsyYP** (Saesneg yn unig)

Davies, A. (2018). **Modern Methods of Construction: A forward-thinking solution to the housing crisis?** RICS. Ar gael o: **https://bit.ly/3iPCqEj** (Saesneg yn unig)

Demivera, N. (2019). **Immigration, Diversity and Social Cohesion.** Migration Observatory. Ar gael o: **https://bit.ly/3omqydZ** (Saesneg yn unig)

Dinesen, P.T., Schaeffer, M., and Sønderskov, K.M. (2020). **Ethnic Diversity and Social Trust: A Narrative and Meta-Analytical Review**. Annual Review of Political Science vol. 23, pp. 441-465. Ar gael o: **https://bit.ly/3ooEnbY** (Saesneg yn unig)

Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. (2017). **"I used to be someone": Refugees and asylum seekers in Wales**. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael o: **https://bit.ly/2YgRmBO** (Saesneg yn unig)

Garvie, D. (2017). **Black, Asian and Minority Ethnic homelessness matters and is disproportionately rising – time for the government to act**. Shelter. Ar gael o: **https://bit.ly/3a8x03d** (Saesneg yn unig)

Greenfields, M. (2009). **Gypsies, Travellers and accommodation.** Race Equality Foundation. Ar gael o: **https://bit.ly/2NCoEJv** (Saesneg yn unig)

Greenfields, M., Jones, H., Chastney, B., Murdoch, A., Hargreaves, M., Diaconescu, I., Kirkby, A., Nuttall, E., Ruston, S., Spencer, S., Jones, T., Willers, M., Compton, J., Shepherd, C., and Richardson, J. (2016). **Best Practice for assessing the accommodation needs of Gypsies and Travellers**. Ar gael o: **https://bit.ly/3onsYJw** (Saesneg yn unig)

Gulliver, K. (2016). **Forty Years of Struggle: A Window on Race and Housing, Disadvantage and Exclusion.** Human City Institute. Ar gael o: **https://bit.ly/3t4zEj1** (Saesneg yn unig)

Gypsies and Travellers Wales. (n.d.) **Sites.** Gypsies and Travellers Wales Website. Ar gael o: **https://bit.ly/2M2yrs6** (Saesneg yn unig)

Jones, A. (2008). **Meeting the sheltered and extra care housing needs of black and minority ethnic older people.** Race Equality Foundation. Ar gael o: **https://bit.ly/3pph7Mi** (Saesneg yn unig)

Jones, A. (2010). **Black and minority ethnic communities' experience of overcrowding.** Race Equality Foundation. Ar gael o: **https://bit.ly/3r0Z7bx** (Saesneg yn unig)

Kaufmann, E., and Cantle, T. (2016). **Is segregation on the increase in the UK?** OpenDemocracy. Ar gael o: **https://bit.ly/2MrQpny** (Saesneg yn unig)

Muir, J., and McMahon, M. (2015). **Involving Everyone: Including ‘easy to ignore’ groups in housing policy and strategy development in Northern Ireland.** Housing Rights. Ar gael o: https://bit.ly/3acuVDc (Saesneg yn unig)

Ogbonna, E. (Chair). (2020). **Grŵp Cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19: Adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol.** Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://bit.ly/397Dn7C

Pamment, L. (Chair). (2019). **Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy: Adroddiad Terfynol**. Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://bit.ly/39ndFMr

Paxton, P. (2002). **Social Capital and Democracy: An interdependent relationship.** American Sociological Review, vol. 67, no. 2, pp. 254-277.

Petch, H., and Stirling, T. (2020). **Darparu Llety ar gyfer Ceiswyr Lloches a Wrthodwyd yng Nghymru: Astudiaeth ddichonoldeb a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.** Ar gael o: https://bit.ly/39r55fR

Race Alliance Wales. (2020). **Our Manifesto for an Anti-Racist Wales**. Ar gael o: https://bit.ly/36emeqP (Saesneg yn unig)

Rawls, J. (1985). **Justice as Fairness: Political not Metaphysical.** Philosophy and Public Affairs vol. 13, no. 3, pp. 223-251.

Schwan, K., French, D., Gaetz, S., Ward, A., Akerman, J., and Redman, M. (2018). **Preventing youth homelessness: An international review of evidence.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael o: https://bit.ly/2NK96Ul (Saesneg yn unig)

Sheikh, S., and Teenan, D. (2018). **A rapid evidence assessment of what works in homelessness services**. SCIE / Crisis. Ar gael o: https://bit.ly/3a3onqE (Saesneg yn unig)

Shelter. (2008). **Good practice guide: Working with housed Gypsies and Travellers**. Ar gael o: https://bit.ly/39pbW9i (Saesneg yn unig)

Ystadegau ar gyfer Cymru. (2019). **Statistical First Release: Homelessness in Wales, 2018/19**. Ar gael o: https://bit.ly/39nctsv (Saesneg yn unig)

Ystadegau ar gyfer Cymru. (2020a). **Housing tenure by protected characteristics.** Ar gael o: https://bit.ly/3ch0qyl (Saesneg yn unig)

Ystadegau ar gyfer Cymru. (2020b). **Housing Information Group 24 September – Housing and Equalities**. Ar gael o: **https://bit.ly/2YgUVrG** (Saesneg yn unig)

Ystadegau ar gyfer Cymru. (2020c). **Gypsy and traveller caravan count, January 2020**. Ar gael o: **https://bit.ly/3a1CD2Y** (Saesneg yn unig)

StatsCymru. (2019). **Stoc llety anghenion cyffredinol a llety cysgodol hunangynhwysol (a ddefnyddir i bennu rhent targed) yn ôl y math o annedd, nifer yr ystafelloedd gwely a'r math o lety.** Ar gael o: **https://bit.ly/3ccyJXX**

StatsCymru. (2020a). **Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig.** Ar gael o: **https://bit.ly/2YikTLB**

StatsCymru. (2020b). **Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o amnedd a nifer yr ystafelloedd gwely.** Ar gael o: **https://bit.ly/2M8HIie**

StatsCymru. (2021). **Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o amnedd a nifer yr ystafelloedd gwely**. Ar gael o: **https://rb.gy/bes2fd**

Stott, N., and Fava, M. (2019). **Challenging racialized institutions: A history of black and minority ethnic housing associations in England between 1948 and 2018.** *Journal of Management History* 26:3, pp.315-333. Ar gael o: **https://bit.ly/2NKaKFv** (Saesneg yn unig)

Tai Pawb. (2005). **Good Practice Briefing no. 7: Communicating Housing Information to Refugees and Asylum Seekers.** Ar gael o: **https://bit.ly/3qV0hVH** (Saesneg yn unig)

Tai Pawb. (2012). **Good Practice Briefing no. 39: Making information accessible.** Ar gael o: **https://bit.ly/2MtX28S** (Saesneg yn unig)

Tai Pawb. (2020a). **Housing Association boards equality and diversity report.** Llywodraeth Cymru. Ar gael o: **https://bit.ly/3opPYau** (Saesneg yn unig)

Tai Pawb. (2020b). **Deeds not Words: A pledge to action.** Ar gael o: **https://bit.ly/3poh8A3** (Nid yw'r ddogfen hon ar gael)

de Tocqueville, A. (2003). **Democracy in America and Two Essays on America**. Translated by G.E. Bevan. Penguin Books.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2002). **Cynllun gweithredu ar gyfer tai i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig**. Ar gael o: https://bit.ly/2MrlKqt

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2003). **Review of Service Provision for Gypsies and Travellers**. Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Ar gael o: **https://bit.ly/3qUbVAk** (Nid yw'r ddogfen hon ar gael trwy'r ddolen hon)

Llywodraeth Cymru. (2015). **Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr: Canllawiau**. Ar gael o: **https://bit.ly/2YlKLGh**

Llywodraeth Cymru. (2016). **Cydlyniant Cymunedol Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2016 i 2017.** Ar gael o: https://bit.ly/3a9JYO9

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Nawr yw'r amser i weithredu yn erbyn anghydraddoldeb hiliol: Llywodraeth Cymru yn gosod llwybr ar gyfer newid systemig a chynaliadwy i Gymru.** Datganiad i'r Wasg. Ar gael o: https://bit.ly/3oqzNKe

Llywodraeth Cymru. (2020b). **Adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Pobl dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Covid-19: ymateb Llywodraeth Cymru.** Ar gael o: **https://bit.ly/3a8g5hj**

Llywodraeth Cymru. (2020c). **Datganiad Llafar: Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru—Strategaeth dulliau modern o adeiladu ar gyfer Cymru.** Ar gael o: **https://bit.ly/2MxBTuF**

Women and Equalities Committee. (2019). **Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller Communities**. UK Parliament. Ar gael o: **https://bit.ly/2YjgjwB** (Saesneg yn unig)

Women and Equalities Committee. (2020). **Oral Evidence: Unequal impact? Coronavirus and Black, Asian and Minority Ethnic people. Wednesday 1st July.** UK Parliament. Ar gael o: **https://bit.ly/2Yk4HsX** (Saesneg yn unig)

Llywodraeth y DU. (2019). **Ethnicity Facts and Figures: Housing.** Ar gael o: **https://bit.ly/2YjQP27** (Saesneg yn unig)

Llywodraeth y DU. (2020). **Regional ethnic diversity.** Ar gael o: **https://bit.ly/2Mappct** (Saesneg yn unig)

# Atodiad 1: Cyfeirnodau at y gyfres adrodd

Dyma’r adroddiad cyntaf mewn cyfres o chwech, gyda phob un yn ffocysu ar faes polisi penodol er mwyn llywio datblygiad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae'r gyfres o adroddiadau yn cynnwys:


Arday, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Addysg**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hatch, S., Woodhead, C., Moriarty, J., Rhead, R., a Connor, L. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hatch, S., Woodhead, C., Rhead, R., a Connor, L. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Cyflogaeth ac Incwm.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Price, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Tai a Llety.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Roberts, M. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Trosedd a Chyfiawnder.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Showunmi, V., a Price, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

# Atodiad 2: Argymhellion cylchol

| Argymhellion cylchol | Maes ffocws |
|---|---|
| Dylid gweithredu mesurau i leihau gorlenwi, sy'n effeithio'n arbennig ar gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. | Beth sy'n gweithio o ran lleihau gorlenwi mewn llety? |
| Adeiladu mwy o dai fforddiadwy a chymdeithasol. | Sut y gellir darparu tai fforddiadwy a chymdeithasol ar raddfa? Pa liferi polisi y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i gefnogi hyn? |
| Darpariaeth well o lety symud ymlaen i ffoaduriaid ar ôl hawliad lloches llwyddiannus. | Pa gefnogaeth fydd yn cynorthwyo ffoaduriaid i gael mynediad at lety sefydlog, tymor hir ar ôl hawliad lloches llwyddiannus? |
| Adlewyrchu anghenion tai cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn Asesiadau o’r Farchnad Dai Leol ac offer datblygu eraill. | Sut y gall Awdurdodau Lleol a datblygwyr gefnogi anghenion tai penodol cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig? |
| Darparu mecanweithiau tai ac atal amddifadrwydd cynaliadwy ar gyfer y rheini sy’n cael eu heffeithio gan y pandemig Coronafeirws. | Pa gymorth tymor hir fydd ei angen i osgoi amddifadrwydd neu ddigartrefedd o ganlyniad i’r pandemig Coronafeirws? |

## Manylion yr Awdur

Mae **Dr Jack Price** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Manon Roberts**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
**manon.roberts@wcpp.org.uk**

OGL This report is licensed under the terms of the Open Government License

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru